| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y Pwyllgor Safonau** |
| **Dyddiad :** | **6 Tachwedd 2023** |
| **Teitl :** | **Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch** |
| **Awdur :** | **Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau** |
| **Pwrpas :** | **Er gwybodaeth** |

**Cefndir**

1. Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor fel rhan o'i waith o fonitro safonau o fewn y Cyngor.

2. Mae Cod Ymddygiad Cyngor Gwynedd yn ei gwneud yn ofynnol i aelodau gofrestru unrhyw gynnig o letygarwch, buddiant materol neu fantais sy'n werth mwy na £25 pe derbynnir y cynnig hwnnw ai peidio. Adroddwyd wrth y Pwyllgor ar 23/2/23 bod y mwyafrif o awdurdodau hefyd wedi gosod y trothwy ar gyfer cofrestru cynigion ar £25 ond bod cynnig wedi ei wneud i ystyried gosod lefel gyfartal rhwng awdurdodau ar lefel genedlaethol a hynny ar sail wirfoddol. Rydym yn parhau i ddisgwyl am ganlyniad y trafodaethau hynny.

3. Mae ffurflen bwrpasol ar gael i gofrestru cynigion o'r fath ac mae copi wedi ei hatodi fel Atodiad 1.

**Y Protocol**

4. Mabwysiadodd y Cyngor Brotocol ar Roddion a Lletygarwch Aelodau yn 2004. Yn sgil cyhoeddi Cod Ymddygiad newydd a Chanllawiau gan yr Ombwdsmon adolygwyd y Protocol gan y Pwyllgor Safonau, gan gyflwyno ei argymhellion ar gyfer diwygio'r Protocol i'r Cyngor Llawn. Mabwysiadwyd y Protocol cyfredol gan y Cyngor ar 2 Mai 2013. 5Atodir copi o'r Protocol fel Atodiad 2.

**Y Gofrestr**

5. Mae'r pwyllgor hwn yn y gorffennol wedi trafod priodoldeb cyhoeddi'r gofrestr ar y wefan y Cyngor. Penderfynwyd bryd hynny (2014) na ddylid gwneud am y tro. Erbyn hyn mae'n orfodol rhoi'r Gofrestr Fuddiannau ar y we ond nid yw'r un orfodaeth yn ymestyn i'r Gofrestr Rhoddion a Lletygarwch.

**Dadansoddiad**

6. Dadansoddwyd y datganiadau ar y gofrestr gyfredol a cheir y canlyniadau isod:

| **Dyddiad ffurflen** | **Rhodd/lletygarwch** | **Derbyniwyd / gwrthodwyd** | **Gwerth** |
|---|---|---|---|
| 10/01/23 | Blodau a prosecco gan rywun yn fy ward ar ôl imi eu helpu nhw efo cais cynllunio. | Derbyniwyd | Dros £25 |
| 04/09/23 | Tocynnau siopa M&S – diolch am help gyda chais cynllunio | Gwrthodwyd | Heb ei nodi |

**Argymhelliad**

7. Gofynnir i'r Pwyllgor:

(a) nodi a derbyn cynnwys yr adroddiad

(b) gynnig unrhyw sylwadau ar yr adroddiad